Ysgol Penrhyn-coch

Yn y lle cyntaf rhaid diolch i Glŵb Pêl-droed Penrhyn-coch am fod mor garedig a chyflwyno dillad chwarae i aelodau tim pêl-droed yr ysgol. Cyflwynwyd y dillad ar ran y Clwb gan y Cadeirydd Mr. Eric Thomas. Yr ydym yn wir ddiolch-gar am y rhodd hon ac yn gwerth-fawrogi'r diddordeb a gymer y Clwb yng ngweithgareddau'r ysgol.

Yn ystod y Nadolig cawsom amser prysur a rhaid yw diolch i nifer o rieni am fod mor garedig i'r ysgol. Bu Mr. a Mrs. Cyril Jenkins, Mr. a Mrs. Wyn Humphreys a Mr. a Mrs. D. R. Morgan yn hynod wrth y plant a diolchwn iddynt am ein cofio fel hyn. Da gennym ninnau yw cael ar ddeall bod y Gwasanaeth Naw Llith a Charol a gynhaliwyd gan y plant yn Eglwys Sant Ioan yn gymeradwy gan bawb ohonoch.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf yma bu'r tîm pêl-droed a'r tîm hoci'n brysur a chafwyd nifer o gemau diddorol. Edrychwn ymlaen yn awr i'r Gala nofio ym Mhwll Nofio Plas Crug.
Croeso cynnes i Mrs. Gareth Mathews i'n plith. Daw atom bob bore Iau a dydd Gwener. Croeso hefyd i Owen Jackson, Ger-y-llan. Mae ef yn hapus iawn yn ein mysg. Cyfarfu Elen Hughes â damwain yn ei chartref. Bu yn Ysbyty Bronglais am ychydig ddiwrnodau ond yn awr mae'n holliach ac yn ôl gennym.

Yng nghartref Mr. a Mrs. Eric Thomas, Rhif 1 Maesyfelin cynhaliwyd "Parti Llestri" ychydig amser yn ôl, a'r dydd o'r blaen cyflwynodd Mrs. Gwenda Thomas yr elw'n gyfangwbl i Gronfa Urdd yr Ysgol. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i chwi am hyn ac yn sylweddoli'r gwaith oedd ynghlwm wrth y fenter. Diolch lawer i chwi. Y mae Cronfa'r Adran dros ddeugain punt ar ei hennill.

Yn awr yr ydym yn brysur baratoi ar gyfer Eisteddfod Gylch yr Urdd a gynhelir ym Mawrth yn Neuadd Penglais.